# Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 15 Hydref 2003

## Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf. Cafodd Cwestiynau 3 a 5 eu grwpio ar gyfer eu hateb.

**2.20pm**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf.

**2.39pm**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Gofynnwyd y 2 gwestiwn cyntaf.

**2.45pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003**
*NDM1653 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 57
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1654 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2003, yn ymwneud â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003.

2. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2003, yn ymwneud â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003; a

3. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2003;
b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2003.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol i'r cynnig i gymeradwyo'r gorchgymyn:**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn penderfynu bod yn rhaid i unrhyw awdurdod lleol sy'n bwriadu gwneud taliadau i gynghorwyr gynnal refferendwm lleol i gael cymeradwyaeth y cyhoedd.

**Gwelliant i’r Gorchymyn a gyflwynwyd ar 10 Hydref 2003**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**Mike German (Dwyrain De Cymru)**
**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu gwneud y gwelliannau canlynol i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaethau a Roddwyd) (Cymru) 2003:

Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd Rheoliad 4:

'(dd) ei gwneud yn ofynnol bod yr aelod wedi cyrraedd 65 oed erbyn 6 Mai 2003’

*Cyflwynwyd y datganiad canlynol o dan Reol Sefydlog 22(ii) er mwyn esbonio diben a goblygiadau ariannol y gwelliant uchod.*

**Diben**

Y diben yw darbwyllo cynghorwyr sydd y tu hwnt i oed ymddeol i gamu o'r neilltu er mwyn annog ymgeiswyr iau i sefyll.

**Costau**

Ni fyddai costau ychwanegol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant i'r Gorchymyn**
**O blaid 17 ; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 58**
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Gwelliant i'r Cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 58
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 30; Ymatal ; Yn erbyn 28; Cyfanswm 58
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.50pm**
**Cynnig i Ohirio Rheolau Sefydlog**
*NDM1658 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 34.4, yn penderfynu atal Rheol Sefydlog 6.12, i ganiatáu i'r cynnig heb ddyddiad trafod - NNDM1659, a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2003, i ddirprwyo'r swyddogaethau a gynhwysir yn Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Weinidog y Cynulliad, i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 15 Hydref 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 58; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 58
**Derbyniwyd y cynnig gan y mwyafrif angenrheidiol o 2/3**

*NNDM1659 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i’r Gweinidogion priodol yn y Cynulliad, ac i staff, pan fo hynny’n briodol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 58; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 58
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**3.51pm**
**Dadl ar lansio gwasanaethau ychwanegol a mynediad 24 awr**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair**

*NDM1655 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cytundeb â'r BMA yng Nghymru ynghylch y pecyn o wasanaethau gwell a fydd yn gam cyntaf o ran gweithredu'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru.

2. Yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael sylw o fewn 24 awr gan aelod o dîm gofal sylfaenol;

3. Yn croesawu cydweithrediad y gymuned gofal sylfaenol o ran penderfynu sut y bydd y gwasanaeth hwn yn gweithio'n ymarferol;

4. Yn cydnabod y bydd yn ofynnol, er mwyn gweithredu'r polisi hwn a’r contract newydd ar gyfer Meddygon Teulu, i gorff helaeth o ddeddfwriaeth gael ei roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn amserlen dynn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, ychwanegu ar ôl ‘yng Nghymru’:

‘ac yn ei gwneud yn ofynnol i’r ymrwymiad hwn fod yn hanfodol o ran y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol’.

**Gwelliant 2**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

' , heblaw bod meddygon teulu heb eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon'

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, ychwanegu ar ôl ‘ymarferol’:

‘, ond yn mynegi siom ynghylch methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Meddygon Teulu’n cael eu cynrychioli’n ddigonol yn y broses o weithredu’r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol yng Nghymru.’

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 4, ychwanegu ar ôl ‘amserlen dynn’:

‘gan lynu wrth y Rheolau Sefydlog, ac yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael ei roi ar waith yng Nghymru yr un pryd ag yn Lloegr.’

**Gwelliant 5**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd angen neilltuo arian i fodloni’r rhwymedigaethau.

**Gwelliant 6**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y niwed a all gael ei achosi yn sgil gweithredu Cyfarwyddeb Oriau Gwaith yr UE.

**Gwelliant 7**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd y newidiadau i'r gwasanaethau y tu allan i oriau yn effeithio ar y

gallu i ddarparu gofal sylfaenol.

**Gwelliant 8**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn cydnabod bod y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn caniatáu i bractis Meddyg Teulu beidio â chynnig gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, ac yn galw ar i’r Byrddau Iechyd Lleol gael digon o arian i sicrhau bod trefniadau eraill ar gael ar gyfer cleifion yng Nghymru.’

**Gwelliant 9**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael ei weithredu yng Nghymru yr un pryd ag yng ngweddill y DU ac yn mynegi pryder difrifol bod posibilrwydd na fydd hynny’n digwydd.’

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Cymeradwywyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 11; Ymatal 9; Yn erbyn 36; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Cymeradwywyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig fel y'i diwygiwyd**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y Cynnig**

**4.48pm**
**Dadl ar gynnig Michael German o dan Reol Sefydlog 29: System taliadau uniongyrchol i bobl hyn am y gwasanaethau gofal a ddarperir iddynt**
*NDM1612 Michael German (Dwyrain De Cymru);*

Cynnig o dan Reol Sefydlog 29.2 fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddod ag is-ddeddfwriaeth ddrafft gerbron yn unol â'r pwerau a roddwyd drwy orchmynion trosglwyddo o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i gyflwyno rheoliadau o dan Adran 57(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnig system dalu uniongyrchol i bobl hyn ar gyfer darparu gwasanaethau gofal ar eu cyfer.

**4.49pm**
**Cynigiodd Y Trefnydd gynnig gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 6.18 i ymestyn y Cyfarfod Llawn hyd 6.20pm.**

**Pleidlais ar y Cynnig Gweithdrefnol**

O Blaid 47; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**5.01pm**
**Parhaodd y ddadl ar gynnig Michael German o dan Reol Sefydlog 29.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Ni chafodd Gwelliant 1 ei ddethol**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Trin yr hyn sy’n dilyn ‘i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol yng Nghymru’ fel is-bwynt.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Trin yr hyn sy’n dilyn ‘i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol yng Nghymru’ fel is-bwynt, ac ychwanegu is-bwynt arall:

‘Rhoi gwybod i’r holl bobl hyn sydd naill ai’n derbyn gwasanaethau gofal, neu sy’n cael eu hasesu ar gyfer hynny, bod system dalu uniongyrchol ar gael.’

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Trin yr hyn sy’n dilyn ‘i'w gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol yng Nghymru’ fel is-bwynt, ac ychwanegu is-bwynt arall:

‘Ymgynghori â’r cyrff cymunedol lleol priodol wrth baratoi llenyddiaeth hyrwyddo.’

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 2**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**

O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Cynnig**

**5.36pm**
**Daeth y Llywydd i'r Gadair**

**Dadl fer - NDM1652 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol - Tywyn, De Meirionnydd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.01pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 14 Hydref 2003**

- Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2003 - Memorandwm Cywiriadau - LD2319
- Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2003 - Memorandwm Cywiriadau - LD2320
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2321
- Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2322
- Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004 - 2005 I 2006-2007 - LD2323

**Dogfennau a Osodwyd ar 13 Hydref 2003**

- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Adroddiad a Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 LD2324